# Canllawiau cronfa'r Bont Ddiwylliannol: Rownd 5


1. Cymorth i wneud cais
2. Cefndir y gronfa
3. Pwy sy'n gallu gwneud cais?
4. Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?
5. Faint o arian sydd ar gael?
6. Sut cewch chi ddefnyddio'r arian?
7. Beth na chewch chi wneud cais amdano?
8. Sut a phryd i wneud cais?
9. Sut bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu?
10. Llenwi'r ffurflen gais
11. Canllawiau i greu cyllideb a chostau hygyrchedd
12. Beth os oes gen i gwestiwn?


## 1. Cymorth i wneud cais

Rydyn ni am i'r broses o wneud cais i raglen y Bont Ddiwylliannol fod yn hygyrch i bob sefydliad a hoffai wneud cais. Os bydd angen cymorth arnoch chi i wneud cais, gallwn ni helpu mewn sawl ffordd.

Mae'r canllawiau ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys PDF wedi'i fformatio a Thestun Plaen. Os bydd angen fformat gwahanol arnoch chi, cysylltwch.

Mae arweinwyr ein rhaglen yn y Deyrnas Unedig a'r Almaen wrth law i roi cymorth i'r rheini sy'n gwneud cais ac i ateb cwestiynau am y canllawiau neu y broses o wneud cais. Mae'r manylion cysylltu yn adran 12. Mae gennyn ni hefyd adran ar ein gwefan sy'n rhoi'r atebion i gwestiynau cyffredin.

Gallwn ni hefyd dalu rhai o'r costau hygyrchedd sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch y byddwch chi'n gwneud cais am gyllid ar ei gyfer. Ewch i adran 11 i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

## 2. Cefndir y gronfa

Mae'r Bont Ddiwylliannol yn ceisio cefnogi sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r Almaen i ddatblygu partneriaethau sy'n ymwneud ag ymarfer celfyddydol cymdeithasol.

Rydyn ni'n rhoi cyllid i sefydliadau sy'n batrwm o ddemocratiaeth ddiwylliannol gan eu bod yn gwneud y canlynol:

- *sicrhau bod cymunedau'n ganolog i'w gwaith creadigol*

- *chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu'r celfyddydau a chymdeithas, yn enwedig drwy feithrin cyd-greu rhwng cymunedau, artistiaid a phartneriaid eraill*
- *cefnogi pobl o bob rhan o'u cymunedau i ddatblygu eu creadigrwydd a chanfod eu lleisiau unigol*
- *grymuso eu cymunedau i gydweithio er mwyn hybu eu llefydd lleol, eu hunaniaeth gyffredin, a'u gallu i gael effaith ar y cyd*

Drwy alluogi cysylltiadau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod, mae'r Bont Ddiwylliannol yn cefnogi rhwydwaith cynyddol o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i rannu arbenigedd a sgiliau, cyfnewid syniadau, a chydweithio ar brosiectau ac ymarfer artistig sy'n trin a thrafod themâu a phroblemau sy'n wynebu cymunedau yn y naill wlad a'r llall.

Mae'r Bont Ddiwylliannol yn ceisio datblygu dulliau cyfranogol arloesol mewn amrywiaeth o ffurfiau celfyddydol, gan ymateb i **themâu llefydd** ein rhaglen:

- Adfywio llefydd/cymunedau ôl-ddiwydiannol
- Cynyddu'r ymwneud diwylliannol â llefydd lle ceir llai o gyfleoedd
- Archwilio llefydd a chymunedau a gaiff eu gweddnewid gan ymgyrchu ar lawr gwlad
- Ailddiffinio'r defnydd o ofod cyhoeddus

Mae saith o bartneriaid yn buddsoddi yn rhaglen y Bont Ddiwylliannol: Fonds Soziokultur, Arts Council England, Arts Council Northern Ireland, Creative Scotland, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, y British Council a'r Goethe-Institut London.

Hyd yma, mae'r Bont Ddiwylliannol wedi cefnogi 49 o bartneriaethau, gan roi 62 o ddyfarniadau, ers y flwyddyn beilot yn 2021. Mae'r partneriaethau'n trin a thrafod amrywiaeth eang o themâu a ffurfiau celfyddydol gan gynnwys gwaith ieuenctid, cynhwysiant, iechyd a lles, materion gwleidyddol-gymdeithasol, hygyrchedd gwledig a materion amgylcheddol. Mae gwybodaeth am y partneriaethau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi cael arian yn y gorffennol ar ein gwefan fan hyn.

Bydd y penderfyniadau am roi cyllid yn cael eu gwneud yn unol â meini prawf y gronfa a'r nod fydd bod yn gynhwysol wrth roi sylw i ddaearyddiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol yr Almaen a'r Deyrnas Unedig.

## 3. Pwy sy'n gallu gwneud cais?

I fod yn gymwys, mae'n **rhaid** i ymgeiswyr fod:

- Yn sefydliad* sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig neu'r Almaen
- Yn sefydliad sy'n gallu dangos arbenigedd mewn ymarfer celfyddydol cymdeithasol sy'n golygu gweithio gyda chymunedau

Mae'r Bont Ddiwylliannol ar agor i bob ffurf gelfyddydol ac yn Rownd 5 bydd yn **blaenoriaethu** cymorth i'r canlynol:

- Sefydliadau celfyddydol a diwylliannol llai o faint nad ydyn nhw eisoes yn cael cyllid sylweddol neu barhaus
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r prif ddinasoedd, neu sy'n gweithio gyda chymunedau y tu allan i'r rheini, e.e. mewn ardaloedd gwledig neu ganolfannau trefol llai poblog
- Sefydliadau sy'n grymuso cymunedau lleol drwy eu gwaith creadigol
- Sefydliadau y mae eu gwaith yn cyd-fynd ag amcanion ein rhaglen a'r themâu llefydd
- Sefydliadau sy'n meithrin tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant drwy eu harweinyddiaeth a'u hymarfer

Rhaid i'r partneriaethau fod yn rhai dwyochrog, a'r rheini'n cynnwys o leiaf un partner o'r Almaen ac un partner o'r Deyrnas Unedig, a hynny o unrhyw un o'r pedair cenedl: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

**Dim ond un cais ar y cyd gan bob partneriaeth y byddwn ni'n gallu'i dderbyn, ac ni chaiff sefydliadu fod yn rhan o fwy nag un cais. Mae'n debygol y bydd ceisiadau niferus gan sefydliad yn arwain at wneud y cynigion cysylltiedig yn anghymwys.**

Bydd cymorth yn cael ei gynnig i baru sefydliadau â'i gilydd, a hynny cyn y cyfnod ymgeisio, er mwyn helpu i feithrin cysylltiadau newydd rhwng sefydliadau yn y Deyrnas Unedig a'r Almaen sy'n dymuno dod o hyd i bartner er mwyn gwneud cais o dan Haen 1 y rhaglen gyda'i gilydd.

Mae rhaglen y Bont Ddiwylliannol wedi ymrwymo i hyrwyddo rhwydwaith teg, amrywiol a chynhwysol. Dylai'r gweithgarwch rydyn ni'n ei gefnogi, a gweithluoedd y sefydliadau celfyddydol a diwylliannol y byddwn ni'n eu hariannu, adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig a'r Almaen.

*Wrth gyfeirio at sefydliad, rydyn ni'n golygu grŵp o bobl sy'n gweithio i gyflawni nod cyffredin, gyda dogfen lywodraethu. Cytundeb cyfreithiol yw dogfen lywodraethu sy'n esbonio beth mae'ch sefydliad yn ceisio'i gyflawni a sut bydd yn gweithredu, a dylai hyn gynnwys y math o weithgarwch rydych chi'n gwneud cais am arian tuag ato.

Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig, gallai'ch sefydliad fod yn elusen, yn gymdeithas wirfoddol gofrestredig, yn gwmni cyfyngedig (nid er elw), neu'n grŵp/cydweithfa anghorfforedig.

Yn yr Almaen, gallai hyn gynnwys e.V., gGmbH, gUG, Gbr, cydweithfa o artistiaid neu fenter ddiwylliannol. Wrth sôn am gydweithfa neu fenter, rydyn ni'n golygu grŵp ac ynddo o leiaf dri o bobl sy'n byw yn yr Almaen.

Mae'n rhaid i bob sefydliad gael cyfrif banc yn enw'r sefydliad, gydag o leiaf ddau lofnodwr (y bobl sydd â hawl i lofnodi sieciau).

## 4. Pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais?

Ni allwn ni dderbyn ceisiadau gan y canlynol:

- Artistiaid neu ymarferwyr unigol
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r Almaen
- Sefydliadau nad ydyn nhw'n gallu dangos bod ganddyn nhw record amlwg o ymarfer celfyddydol cymdeithasol sy'n golygu gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol
- Sefydliadau i aelodau neu rwydweithiau cenedlaethol neu ryngwladol
- Prifysgolion neu sefydliadau addysgol eraill

## 5. Faint o arian sydd ar gael?

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer **Rownd 5** y rhaglen yw £370,000 (tua €430,000). Bydd y gyllideb hon yn cael ei rhannu rhwng ein dwy haen ariannu, ac rydyn ni'n rhagweld y byddwn ni'n gwneud hyd at 20 o ddyfarniadau yn y rownd hon. Mae Haen 1 ar gyfer partneriaethau newydd a gall ymgeiswyr wneud cais am gyfanswm o rhwng £5,000 a £10,000 ar gyfer pob partneriaeth, yn ogystal ag am gostau hygyrchedd personol (mewnol) yn ychwanegol at hyn. Nid oes yn rhaid dod o hyd i arian cyfatebol.

Mae Haen 2 ar gyfer partneriaethau sydd wedi'u sefydlu'n barod, a gall ymgeiswyr wneud cais am gyfanswm o £30,000 ar gyfer pob partneriaeth, yn ogystal ag am gostau hygyrchedd personol (mewnol) yn ychwanegol at hyn. Yn ffurfiol, nid oes yn rhaid dod o hyd i arian cyfatebol. Serch hynny, rydyn ni'n annog partneriaethau i fod yn uchelgeisiol gyda'r nod o ddatblygu partneriaethau ehangach a dod o hyd i incwm arall, boed yn ariannol neu'n gymorth nad yw'n ariannol, er mwyn hybu amcanion eich partneriaeth.

Mae adran 6 yn rhoi esboniadau manylach am y ddwy Haen.

## 6. Sut cewch chi ddefnyddio'r arian?

Gall y ceisiadau fod ar gyfer gweithgarwch sy'n cael ei gynnal wyneb yn wyneb, yn ddigidol neu'n hybrid.

Mae'r Bont Ddiwylliannol yn ariannu sefydliadau sy'n gweithio ym mhob ffurf gelfyddydol gan gynnwys dawns, y theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, y cyfryngau creadigol, celfyddydau yn yr awyr agored, ac eraill.

Un o’r prif feini prawf ar gyfer bod yn gymwys i’r gronfa yw bod yn rhaid i ymarfer celfyddydol cymdeithasol, a hwnnw’n golygu gweithio gyda chymunedau, fod yn ganolog i raglen a/neu ymarfer creadigol eich sefydliad.

Bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd ymateb i un neu ragor o’n themâu llefydd:

- Adfywio llefydd/cymunedau ôl-ddiwydiannol
- Cynyddu’r ymwneud diwylliannol â llefydd lle ceir llai o gyfleoedd
- Archwilio llefydd a chymunedau a gaiff eu gweddnewid gan ymgyrchu ar lawr gwlad
- Ailddiffinio’r defnydd o ofod cyhoeddus

Mae dwy haen ariannu i raglen y Bont Ddiwylliannol:

<table>
<tr><td colspan="2">Haen 1: Datblygu a chyfnewid ymarfer drwy bartneriaethau <u>newydd</u></td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Haen 1 yn cefnogi datblygiad partneriaethau newydd sbon rhwng sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn y Deyrnas Unedig a’r Almaen. Dydyn ni ddim yn disgwyl unrhyw gynnyrch perfformiadol neu artistig o weithgarwch o dan Haen 1. Gellir defnyddio’r arian ar gyfer:<br>- Datblygu partneriaethau<br>- Cyfnewidfeydd<br>- Cyfnodau preswyl<br>- Cyd-greu<br>- Rhwydweithio</td></tr>
<tr><td>Er enghraifft:</td><td>- Cyd-ddatblygu proses neu ymarfer sefydliadol<br>- Cyfnewid ymarferwyr creadigol er mwyn rhannu gwersi, datblygu perthnasau newydd, ac archwilio dulliau arloesol o weithio<br>- Profi ffyrdd llawn dychymyg o weithio gyda chymunedau, sy’n golygu ymwneud â chymdeithas mewn ffordd newydd a chadarnhaol drwy ymarfer creadigol</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">Haen 2: Cyd-ddatblygu a darparu prosiectau gan bartneriaethau sydd wedi’u <u>sefydlu’n barod</u></td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Haen 2 yn cefnogi datblygiad pellach partneriaethau, pan fydd gan sefydliadau eisoes brofiad o weithio gyda’i gilydd. Mae’n <u>rhaid</u> i holl gynigion prosiectau Haen 2 ymwneud yn uniongyrchol â chymunedau. Gellir defnyddio’r arian ar gyfer:</td></tr>
<tr><td>Er enghraifft:</td><td>- Cyd-greu â chymunedau a dargedir er mwyn archwilio ffyrdd newydd o greu cysylltiadau rhwng y celfyddydau a chymdeithas<br>- Cyd-ddatblygu a lledaenu modelau ymarfer artistig sy’n ymateb i anghenion neu heriau presennol mewn cymunedau lleol<br>- Ymarfer yn arloesol ar y cyd, sy’n gwahodd rhyngweithio a thrafodaethau cymdeithasol gydag unigolion, cymunedau a sefydliadau wrth greu celfyddyd gyfranogol<br>- Darparu prosiectau ar y cyd i ddatblygu a mireinio dull newydd o ymwneud â chymunedau, y tu hwnt i’r cam ymchwil cychwynnol</td></tr>
</table>

**7. Beth na chewch chi wneud cais amdano**

- Gweithgarwch nad yw’n ymwneud â’r celfyddydau
- Gweithgarwch nad yw’n canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer celfyddydol cymdeithasol ac nad yw’n ymwneud yn ddiwylliannol â dinasyddion
- Ailadrodd neu barhau â phrosiect cyfnewid, rhaglen neu weithgarwch perfformiadol presennol
- Gweithgareddau sydd i’w cynnal neu sy’n dechrau cyn mis Ebrill 2026, oni bai y cytunir ar hynny’n wahanol
- Costau/gweithgareddau y mae cyllid arall eisoes yn talu amdanyn nhw
- Costau rhedeg cyffredinol a gorbenion y mae incwm arall yn talu amdanyn nhw, gan gynnwys eich cyllid eich hun
- Gweithgarwch sy’n ceisio codi arian neu wneud elw
- Gorbenion parhaus sy’n gysylltiedig â chyfarpar neu adeiladau, fel costau yswiriant a chostau chynnal a chadw
- Prynu asedau neu fuddsoddiadau sylweddol – mae adran 11 yn rhoi canllawiau ar gyfer y gyllideb

Mae gennyn ni’r hawl i gynnig llai o arian pan fydd y costau’n ymddangos yn aneglur neu’n afresymol.

**8. Sut a phryd i wneud cais?**

| | |
|---|---|
| Y gronfa'n agor: | Dydd Mercher 1 Hydref 2025 |
| Y dyddiad cau i wneud cais: | Dydd Mercher 12 Tachwedd 2025 |
| Penderfyniadau: | erbyn 2 Chwefror 2026 |
| Y gweithgarwch i gychwyn: | o 1 Ebrill 2026 |
| Y gweithgarwch i ddod i ben: | erbyn 31 Mawrth 2027 |

Pan fydd y gronfa'n agor, bydd dolen i borth ymgeisio'r Bont Ddiwylliannol yn ymddangos ar ein gwefan: cultural-bridge.info. Bydd gofyn i chi gwblhau proses gofrestru fer cyn gallu cael y ffurflenni cais ar gyfer Haenau 1 a 2.

Dylai'r partneriaid gydweithio i gwblhau'r cais – mae adrannau 10 ac 11 yn ateb cwestiynau am wneud cais ac yn rhoi canllawiau ar gyfer y gyllideb.

**9. Sut bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu?**

Yn gyntaf, edrychir ar eich cais i sicrhau ei fod yn gymwys. Gofalwch eich bod chi, eich gweithgareddau a'ch partneriaid yn gymwys ar gyfer y gronfa hon – mae mwy o wybodaeth yn adrannau 3 a 4 (pwy sy'n gallu/pwy sydd ddim yn gallu gwneud cais) ac adrannau 6 a 7 (at beth y cewch chi/na chewch chi ddefnyddio'r arian).

Ar ôl sicrhau bod y cais yn gymwys, bydd panel rheithgor yn sgorio'r cais. Bydd y panel yn cynnwys arbenigwyr annibynnol, a fydd yn gynrychiolwyr o'r Almaen a'r Deyrnas Unedig sydd wedi'u henwebu gan bob un o bartneriaid cyllido'r Bont Ddiwylliannol.

Bydd y panel rheithgor yn asesu'r cais yn unol â'r meini prawf canlynol:

1. **Y bartneriaeth**
    - y rhesymeg dros ddewis partneriaid mewn perthynas â chenhadaeth y sefydliad, ei brofiad, a'i record o lwyddo ym maes ymarfer celfyddydol cymdeithasol
    - y potensial sydd gan y partneriaid i ddysgu gan ei gilydd ac i ddatblygu eu hymarfer
2. **Y dull o weithio wrth wneud y gweithgarwch**
    - pa mor eglur yw amcanion y gweithgarwch
    - pa mor gytbwys yw'r gweithgarwch cyfnewid, ac a oes budd amlwg i'r partneriaid yn y Deyrnas Unedig a'r Almaen ill dau
    - yr uchelgais a'r potensial i arloesi e.e., archwilio'r cyfle i ddatblygu dull newydd neu wahanol, a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd

- pa mor dda y mae'r cynnig yn cyd-fynd ag un neu ragor o themâu llefydd y Bont Ddiwylliannol

3. **Y buddiannau posibl/yr effaith bosibl**
    - cryfder y buddiannau tebygol i'r sefydliadau/artistiaid sy'n cyfnewid
    - i ba raddau y mae'r gweithgarwch yn debygol o helpu i fynd i'r afael â phroblemau neu heriau cymdeithasol presennol sy'n wynebu cymunedau lleol, nawr neu yn y dyfodol
    - pa mor eglur yw'r dull gwerthuso e.e. dulliau i fonitro, canfod a rhannu gwersi sydd wedi'u dysgu
4. **Rheoli'r gweithgarwch, gan gynnwys yr amserlen a'r gyllideb**
    - pa mor addas yw'r cais am arian, y ffioedd a chostau'r gweithgarwch
    - ansawdd y gwaith cynllunio, gan gynnwys yr amserlen a'r broses o reoli tasgau a'r gyllideb

Bydd y ceisiadau'n cael sgôr o dan y pedwar maen prawf. Bydd y rheithgor wedyn yn trafod yr holl geisiadau a'r sgoriau yn y panel penderfynu. Wrth benderfynu ar y dyfarniadau terfynol, bydd y panelwyr hefyd yn cydbwyso'r dyfarniadau gan ystyried:

- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Amrywiaeth ddaearyddol: er mwyn ehangu cyrhaeddiad ein cyllid i ardaloedd nad ydyn nhw eisoes yn cael cyllid drwy'r Bont Ddiwylliannol ac i gydbwyso gweithgarwch y partneriaethau drwy daleithiau'r Almaen a phedair cenedl y Deyrnas Unedig – Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban

Os bydd digwydd i ni gael nifer uwch o geisiadau na'r disgwyl, mae gennyn ni hawl i gyflwyno cam ychwanegol i sifftio'r ceisiadau. Yn yr achos hwn, dim ond y ceisiadau sy'n cael y sgoriau uchaf a fydd yn cael eu trafod gan y rheithgor.

Oherwydd nifer y ceisiadau rydyn ni'n debygol o'u cael a chapasiti cyfyngedig ein rheithgor, dydyn ni ddim yn gallu cynnig adborth penodol am geisiadau aflwyddiannus i'r rhaglen hon.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod erbyn 2 Chwefror 2026. Wedi hynny, cytunir ar yr amserlenni ar gyfer rhoi'r grantiau a gwneud y taliadau cyn i'r gweithgarwch gychwyn.

Fel rhan o'ch cytundeb ariannu, byddwn ni'n disgwyl i chi rannu'r gwersi rydych chi wedi'u dysgu. Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth â'r rhwydwaith a rhoi manylion am yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu wrth ymarfer, ac yn fwy cyhoeddus bydd yn golygu cyfrannu at ddeunydd cyfathrebu a deunyddiau eraill ein rhaglen.

Byddwn ni hefyd yn gofyn i chi gyfrannu at waith gwerthuso a fydd i'w gynnal yn ystod y gweithgarwch sy'n cael ei ariannu ac ar ôl i hwnnw ddod i ben.

**10. Llenwi'r ffurflen gais**

Isod ceir crynodeb o'r cwestiynau y bydd gofyn i chi eu cwblhau ar y ffurflen gais ar-lein.

*Defnyddiwch y cwestiynau hyn fel canllaw cychwynnol. Gallai fod mân newidiadau i'r cwestiynau ar y ffurflen gais tan y bydd y gronfa'n agor.*

| |
|---|
| **Eich partneriaeth**<br><br>- HAEN 1: Fel partneriaeth newydd, dywedwch wrthyn ni pam fod eich sefydliadau wedi penderfynu cydweithio? *E.e. Beth allwch chi ei ddysgu gan eich gilydd a sut rydych chi'n rhagweld y berthynas yn datblygu?* (300 gair)<br>- HAEN 2: Fel perthynas sydd wedi ei sefydlu'n barod, rhowch wybod i ni pryd a sut rydych chi wedi gweithio gyda'ch gilydd o'r blaen, gan rannu dolenni os gallwch chi, a rhowch wybod i ni pam eich bod eisiau cydweithio eto? (300 gair)<br>- Rhowch wybod i ni am record y ddau sefydliad o lwyddo ym maes ymarfer celfyddydol cymdeithasol. (300 gair) *E.e. rhowch enghraifft o brosiect diweddar a ddarparwyd gan y naill sefydliad a'r llall a'r effaith ar y bobl dan sylw.* (300 gair)<br>- Pwy yw'r bobl neu'r cymunedau lleol y mae'ch sefydliadau'n ymwneud fwyaf â nhw a pham? (150 gair)<br>- Rhowch wybod i ni am egwyddorion eich sefydliad mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant e.e. pa bolisïau sydd gennych chi? Sut ydych chi'n cael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw? |
| **Eich gweithgarwch**<br><br>- Rhowch wybod i ni beth rydych chi'n bwriadu'i wneud, gan gynnwys gyda phwy, ble a phryd? Beth yw thema neu ffocws eich gwaith cyfnewid ac a yw'r gweithgarwch yn debygol o gael ei gynnal wyneb yn wyneb, yn ddigidol, ynteu'n hybrid? (300 gair) |

- Ym mha ffordd fydd y gweithgarwch hwn yn helpu eich sefydliadau i roi cynnig ar rywbeth newydd? *E.e. archwilio neu ddatblygu dull newydd neu wahanol o weithio, ymwneud â chymunedau newydd, neu ymateb i broblemau neu heriau cymdeithasol presennol.* (250 gair)

- HAEN 2: Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich gweithgarwch yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r bobl neu'r cymunedau rydych chi'n bwriadu ymwneud â nhw? (150 gair)

- Pa thema neu themâu llefydd y Bont Ddiwylliannol sy'n cyd-fynd â'ch gweithgarwch a sut? (100 gair)

    - Adfywio llefydd/cymunedau ôl-ddiwydiannol
    - Cynyddu'r ymwneud diwylliannol mewn llefydd lle ceir llai o gyfleoedd
    - Archwilio llefydd a chymunedau a gaiff eu gweddnewid gan ymgyrchu ar lawr gwlad
    - Ailddiffinio'r defnydd o ofod cyhoeddus

**Effaith eich gweithgarwch**

- Pa effaith rydych chi'n rhagweld y caiff y gweithgarwch hwn ar eich sefydliadau, ar yr artistiaid a/neu ar y cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw? *E.e. buddiannau i artistiaid lleol, dylanwad ar gynrychiolaeth amrywiol, neu gydlyniant cymunedol.* (300 gair)

- Sut byddwch chi'n monitro cynnydd eich gweithgarwch, gan gynnwys cofnodi a rhannu'r hyn a ddysgir o wahanol safbwyntiau? (250 gair)

**Rheoli eich gweithgarwch**

- Rhowch wybod i ni sut byddwch chi'n rheoli eich gweithgarwch yn y bartneriaeth, gan gynnwys manylion pwy fydd yn rheoli eich cyllideb? (150 gair)

- <u>Eich amserlen</u> – defnyddiwch y tabl i amlinellu prif gamau gweithgarwch eich partneriaeth, o'r dyddiad cychwyn ymlaen, gan gynnwys ble y bydd y gweithgarwch yn cael ei gynnal a phwy fydd yn arwain pob gweithgarwch neu dasg.

  *E.e. gallai'r prif gamau a'r prif dasgau gynnwys cynllunio, ymchwilio, teithio, trefnu gweithdy neu ddigwyddiad, a chyfarfodydd gwerthuso. Rydyn ni'n deall y gallai dyddiadau newid.*

- Eich cyllideb – rhowch wybod i ni beth yw'r cyfanswm rydych chi'n gofyn amdano, mewn £ yn achos y partner ym Mhrydain ac mewn € yn achos y partner yn yr Almaen, yn ogystal ag unrhyw gostau hygyrchedd personol a all fod yn ychwanegol at gyllideb eich gweithgarwch.

  *Bydd gofyn i chi gwblhau taflen a/neu daenlen (Haen 2) i ddangos manylion eich cyllideb a'ch gwaith cyfrifo. Os byddwch chi'n gofyn am gostau hygyrchedd personol ychwanegol, bydd gofyn i chi hefyd ddweud wrthyn ni ar gyfer beth yn union fydd hyn. Mae canllawiau llawn i'w gweld yn adran 11.*

## 11. Canllawiau i greu cyllideb a chostau hygyrchedd

Yn achos ceisiadau **Haen 1**, byddwn ni'n gofyn i chi lenwi tabl ar gyfer pob partner, gan restru'r gwariant ar eich gweithgarwch. Bydd gofyn i chi nodi'r math o gost gan ddefnyddio'r categorïau a'r disgrifiadau canlynol, gan gynnwys cyfrifiadau'r gost a'r swm.

- Cyflogau neu ffioedd* yr artistiaid neu'r gweithwyr creadigol sy'n rhan o'r gwaith
- Costau artistig neu greadigol eraill e.e. ymchwil, cofnodi digidol
- Llogi neu brynu* pethau e.e., lleoliadau, deunyddiau neu gyfarpar
- Marchnata a datblygu cynulleidfaoedd
- Costau hygyrchedd* e.e., costau personol a/neu gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol
- Teithio* a llety
- Gorbenion* e.e. yswiriant, dogfennau teithio ac ati

Yn achos ceisiadau **Haen 2,** byddwn ni'n gofyn i chi greu eich cyllideb mewn taenlen Excel ar wahân, gyda manylion llawn incwm (pan fydd hynny'n berthnasol) a gwariant y gweithgarwch i bartneriaid y prosiect yn yr Almaen a'r Deyrnas Unedig.  Mae rhagor o wybodaeth am incwm cyfatebol yn adran 11.1.

Byddwn ni'n gofyn i chi ddefnyddio tabiau ar wahân yn y daenlen i gyflwyno cyllidebau'r partneriaid yn yr Almaen a'r Deyrnas Unedig ar wahân, mewn £ neu € fel sy'n briodol.

Pan fydd hynny'n bosibl, dylai holl gyllidebau'r partneriaid rannu'r arian a roddir yn gyfartal.

Sylwch ar y wybodaeth yn adran 7 ynghylch yr hyn na chewch chi wneud cais amdano.

***Cyflogau neu ffioedd**

Dylai’ch cyllideb gynnwys ffioedd yr artistiaid a’r gweithwyr proffesiynol a fydd yn rhan o’r gweithgarwch. Rydyn ni wedi ymrwymo i roi tâl teg i’r rheini sy’n gweithio yn y maes creadigol a diwylliannol, ac rydyn ni’n disgwyl i chi sicrhau bod cyfraddau tâl yr artistiaid a’r gweithwyr proffesiynol sy’n rhan o’ch gweithgarwch (gan gynnwys chi) yn cyd-fynd â’r safonau perthnasol yn y diwydiant neu’n rhagori ar y rheini. Mae angen ystyried hefyd brofiad a sgiliau pobl, y math o waith sydd dan sylw, a hyd y gweithgarwch.

***Llogi neu brynu**

Os bydd angen i chi brynu unrhyw ddeunyddiau neu gyfarpar (asedau) dylech gynnwys y costau hyn yn y gyllideb a rhoi gwybod i ni amdanyn nhw yn y maes disgrifiad. Nid eich helpu i brynu asedau yw prif ddiben y rhaglen, ond rydyn ni’n deall y gallai fod angen i chi brynu rhai pethau er mwyn gallu gwneud y gweithgarwch.

Wrth edrych i weld a ydych chi’n gymwys, byddwn ni’n penderfynu a yw unrhyw asedau sydd i’w prynu’n addas. Yn achos sefydliadau yn yr Almaen, ni ddylai buddsoddiadau/asedau a brynir fod yn fwy na 800 Ewro (net).

***Costau hygyrchedd**

Costau nad ydyn nhw’n rhai artistig yw costau hygyrchedd, a’u nod yw cael gwared ar rwystrau sy’n atal pobl rhag cymryd rhan. Gallan nhw fod ar eich cyfer chi, pobl rydych chi’n gweithio gyda nhw neu’n eu cyflogi, neu gyfranogwyr, neu gallan nhw fod ar gyfer cynulleidfaoedd eich gweithgarwch fel rhan o’r Bont Ddiwylliannol.

Mae’r costau hygyrchedd yn perthyn i ddau gategori:

Costau hygyrchedd personol (mewnol)

Os byddwch chi, fel arweinydd y sefydliad, neu unrhyw aelodau o’r tîm craidd o bobl sy’n gyfrifol am gyflawni’r gweithgarwch, yn Fyddar, yn anabl, yn niwroamrywiol, neu â chyflwr iechyd hirdymor, efallai y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â’u hanghenion hygyrchedd er mwyn helpu i ddarparu’r gweithgarwch fel rhan o’r Bont Ddiwylliannol.

Dyma rai enghreifftiau:

- dehonglydd iaith arwyddion
- meddalwedd neu gyfarpar arbenigol
- costau teithio ychwanegol
- Cynorthwyydd Personol i rywun anabl

Sylwch nad yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr, a dylech roi gwybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi er mwyn darparu’r gweithgarwch.

Mae Costau Hygyrchedd Personol yn cael eu trin ar wahân i brif gyllideb eich gweithgarwch. Gall y costau hyn fod yn fwy na chyfanswm eich cais am gyllid, a gallan nhw olygu bod eich cyllideb yn uwch na’r cyfyngiad ar gyllid pob Haen.

*Pan wneir cais am gostau hygyrchedd personol, byddwn ni'n gofyn i chi roi rhagor o fanylion yn y ffurflen gais, gan gynnwys manylion y costau dan sylw a beth fydd eu diben.*

Costau hygyrchedd ar gyfer gweithgarwch

Dylai'r holl gostau hygyrchedd eraill sy'n gysylltiedig â'ch gweithgarwch gael eu cynnwys yn eich prif gyllideb.

Gall hyn gynnwys costau gwneud eich gweithgarwch yn hygyrch i gynulleidfaoedd cyhoeddus, cyfranogwyr ac artistiaid e.e. cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer digwyddiad, a chostau sy'n gysylltiedig â gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill pan na fyddwch chi'n debygol o allu gwneud y gweithgareddau arfaethedig heb y cymorth hwn.

***Teithio**

Pan fydd hynny'n bosibl, ystyriwch deithio'n gynaliadwy: manteisio ar ffyrdd o deithio sydd ag allyriadau isel neu ddim allyriadau, a ffyrdd o deithio sy'n arbed ynni e.e. trenau neu fysiau, gan gynnwys cerbydau hybrid a thrydan (EV).

Gellir cyfrifo costau teithio ymgeiswyr yn yr Almaen drwy ystyried rheoliadau costau teithio'r gyfraith ffederal, 'Bundesreisekostengesetz'.

***Gorbenion**

Gall partneriaid yn y Deyrnas Unedig wneud cais am gostau gorbenion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgarwch rydych chi'n gofyn i ni ei gefnogi – er enghraifft, taliadau i staff, biliau ffôn, costau postio a chostau yswiriant. Gallwch chi wneud cais am gyfraniad at eich gorbenion rheolaidd os nad yw cyllid arall yn talu am y rhain. Gallwch hefyd gynnwys cyllideb wrth gefn resymol yn eich cyllideb, i dalu am gostau na chafodd eu rhagweld.

Yn achos partneriaid yn yr Almaen, dim ond costau uniongyrchol y gweithgarwch y gellir eu talu. Ni all Fonds Soziokultur dderbyn cyllidebau sydd ag unrhyw gostau heb eu diffinio neu gostau wrth gefn yn rhan ohonyn nhw. Rhaid rhoi prawf o'r holl gostau, gan ddarparu derbynebau i gyd-fynd â'r holl gostau, a hynny fel rhan o'r broses adrodd derfynol.

Rydyn ni'n deall y gallai fod angen newid cyllidebau eich gweithgarwch yn y cyfnod cyflawni, ond bydd angen cytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol â'r arweinydd cyllido yn y Deyrnas Unedig neu'r Almaen.

***Sylwch y bydd yr arian yn cael ei dalu ar wahân i'r sefydliadau yn y Deyrnas Unedig a'r Almaen ym mhob partneriaeth. Bydd Goethe Institut-London yn talu sefydliadau yn y Deyrnas Unedig eu cyfran nhw o'r arian yn uniongyrchol, a bydd Fonds Soziokultur yn talu sefydliadau yn yr***

***Almaen. Dylai cyfanswm yr arian gael ei ddosrannu mor gyfartal â phosibl. <u>Nid oes modd</u> rhoi'r swm cyfan i un partner.***

**11.1 Canllawiau ynghylch arian cyfatebol ar gyfer Haen 2:**

Yn <u>ffurfiol, nid oes</u> yn rhaid dod o hyd i arian cyfatebol. Serch hynny, rydyn ni'n annog partneriaethau i fod yn uchelgeisiol gyda'r nod o ddatblygu partneriaethau ehangach a dod o hyd i incwm arall, boed yn ariannol neu'n gymorth nad yw'n ariannol, er mwyn hybu amcanion y bartneriaeth.

Os <u>nad</u> ydych chi'n bwriadu dod o hyd i arian cyfatebol, boed yn ariannol neu'n gymorth nad yw'n ariannol, dylai'ch cyllideb fod ar gyfer cyfanswm cost y gweithgarwch rydych chi'n bwriadu'i wneud, hyd at uchafswm yr haen (£30,000), ynghyd ag unrhyw gostau hygyrchedd personol.

Os byddwch chi'n dweud wrthyn ni eich <u>bod</u> chi'n chwilio am arian cyfatebol, byddwn ni'n ystyried eich cais fel cyfraniad tuag at gyfanswm cost gweithgarwch eich partneriaeth, a dylai'ch cais a'ch cyllideb adlewyrchu'r uchelgais hon, gyda chyllid y Bont Ddiwylliannol yn cael ei roi fel cyfran o gyfanswm incwm y prosiect.

Dylai'ch cyllideb incwm gynnwys manylion unrhyw arian cyfatebol, boed yn ariannol neu'n gymorth nad yw'n ariannol, gyda nodyn yn dweud pa gam rydych chi wedi'i gyrraedd wrth gael y cyllid ychwanegol e.e. mewn trafodaethau, yn disgwyl cael y cyllid, neu'r cyllid wedi'i gadarnhau.

Rhowch wybod i ni am incwm eich prosiect drwy ddefnyddio'r penawdau incwm, er enghraifft:

- Incwm a fydd yn cael ei wneud – unrhyw incwm y byddwch chi'n ei wneud o'r gweithgarwch hwn (er enghraifft, drwy werthu tocynnau, ffioedd gweithdai neu werthu gwaith neu gyhoeddiadau).
- Cyllid cyhoeddus arall – unrhyw gyllid rydych chi wedi'i gael neu wedi gwneud cais amdano gan unrhyw sefydliad cyhoeddus arall. Rhowch enw pob sefydliad i ni ynghyd â'r swm.

  *I ymgeiswyr yn yr Almaen: sylwch nad yw unrhyw gyllid arall o unrhyw ffynhonnell sy'n seiliedig ar gyllid Die Beauftragte der Bundesregierung für Kultur und Medien, BKM, yn gymwys.*
- Incwm preifat – unrhyw incwm o ffynonellau preifat, er enghraifft gennych chi neu'ch sefydliad, rhoddion neu grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, neu drwy gyllido torfol.
- Cymorth nad yw'n ariannol – mae hyn yn golygu unrhyw ddeunyddiau neu wasanaethau y byddech chi fel arall yn gorfod talu amdanyn nhw ond sy'n cael eu rhoi'n rhad ac am ddim neu am bris is.

Dylai'ch cyllideb, eich incwm a'ch gwariant, fod yn gytbwys. Byddwn ni'n ystyried cryfder eich cyllideb wrth ddefnyddio eich cyfrifiadau a'ch esboniadau.

**12. Beth os oes gen i gwestiwn?**

Gofalwch eich bod wedi darllen y canllawiau'n llawn ac wedi edrych ar y Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan cyn cysylltu ag aelod o dîm y rhaglen.

| ***Manylion cysylltu i sefydliadau yn y Deyrnas Unedig*** | ***Manylion cysylltu i sefydliadau yn yr Almaen*** |
|---|---|
| Lorna Palmer<br>Rheolwr y Rhaglen<br>Y Bont Ddiwylliannol<br>contact@cultural-bridge.info<br>07515 191979 | Silvia Bonadiman<br>Datblygu'r rhaglen<br>Fonds Soziokultur e.V.<br>bonadiman@fonds-soziokultur.de<br>02 28 - 97 144 79-15 |